

Adroddiad cynllun iaith Gymraeg SIA 2025 i 2026

Cyhoeddwyd y ddogfen hon 13 Awst 2026

Cyflwyniad

Mae'r SIA wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru. Mae ein cynllun iaith Gymraeg yn ffurfioli ein polisiau iaith (fel sy'n ofynnol gan Gomisiynydd y Gymraeg) ac yn nodi sut y byddwn yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein perfformiad yn erbyn darpariaethau ein cynllun iaith Gymraeg yn y flwyddyn adrodd 2025 i 2026.

Beth yw'r SIA?

Mae'r SIA yn gorff cyhoeddus anadrannol gweithredol a noddir gan y Swyddfa Gartref.

Fe'n sefydlwyd o dan Ddeddf y Diwydiant Diogelwch Preifat 2001 i gyfrannu at ddiogelu'r cyhoedd drwy osod a gwella safonau yn y diwydiant diogelwch preifat rheoleiddiedig. Rydym yn cefnogi blaenoriaethau'r Swyddfa Gartref o leihau terfysgaeth, atal a mynd i'r afael â throseddau, a sicrhau bod pobl yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi a'u cymunedau.

Mae gennym un swyddfa, sydd yn Llundain. Mae gennym hefyd lu maes o ymchwilwyr rhanbarthol, ac mae rhai ohonyn nhw wedi'u lleoli yng Nghymru.

Rydym yn gyfrifol am:

- trwyddedu pobl sy'n gwneud swyddi penodol yn y diwydiant diogelwch preifat
- cymeradwyo cwmnïau diogelwch preifat sy'n dymuno bod yn rhan o'n Cynllun Contractwyr Cymeradwy
- cynnal archwiliadau
- monitro gweithgareddau pobl sy'n gweithredu o fewn y diwydiant diogelwch preifat a chymryd camau gorfodi lle bo angen
- gosod a chymeradwyo safonau ymddygiad a hyfforddiant ar gyfer y diwydiant diogelwch preifat
- gwneud argymhellion ar ffyrdd o wella safonau yn y diwydiant diogelwch preifat

Rydym yn cael ein llywodraethu gan Fwrdd, sy'n cynnwys:

- ein cyfarwyddwyr anweithredol, gan gynnwys ein Cadeirydd
- ein cyfarwyddwyr gweithredol, gan gynnwys ein Prif Weithredwr

Rôl y Bwrdd yw sicrhau bod cyfrifoldebau statudol yr SIA yn cael eu cyflawni. Mae'r cyfarwyddwyr gweithredol yn gyfrifol ar y cyd am gyflawni'r cyfrifoldebau hynny o ddydd i ddydd. Mae'r cyfarwyddwyr anweithredol yn darparu cymorth a her i'r cyfarwyddwyr gweithredol. Mae gan un cyfarwyddwr anweithredol gyfrifoldeb i weithredu fel hyrwyddwr dros Gymru.

Mae'r Bwrdd hefyd yn gosod cyfeiriad strategol yr SIA.

Yr adroddiad hwn

Mae'r wybodaeth isod yn cwmpasu camau gweithredu'r SIA o chweched flwyddyn ein cynllun iaith Gymraeg. Mae'n nodi gofynion Comisiynydd y Gymraeg yn ogystal ag ymateb SIA.

Mae'r holl ffigurau'n ymwneud â'r cyfnod 1 Mai 2025 i 30 Ebrill 2026 i gyd.

Asesu effaith polisiau

Fe wnaethom adolygu:

- nifer a chanran y polisiau (gan gynnwys polisiau a adolygwyd neu a addaswyd) lle ystyriwyd effaith y polisi ar ddefnyddio'r iaith Gymraeg
- enghraifft o asesiad lle barnwyd bod y polisi wedi cael effaith ar ddefnyddio'r iaith Gymraeg, a manylion sut y diwygiwyd y polisi wedi hynny

Ein canfyddiadau oedd:

- 0
- ddim yn berthnasol

Gohebiaeth ysgrifenedig

Fe wnaethom adolygu:

- maint y gohebiaeth yn y Gymraeg a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod adrodd
- maint y gohebiaeth Saesneg a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod adrodd

Ein canfyddiadau oedd:

- 0
- 149,004

Cyfathrebiadau dros y ffôn

Fe wnaethom adolygu:

- nifer y galwadau iaith Gymraeg a dderbyniwyd i'r prif rif ffôn neu'r ganolfan alwadau yn ystod y cyfnod adrodd

- cyfanswm y galwadau Saesneg a dderbyniwyd i'r prif rif ffôn neu'r ganolfan alwadau yn ystod y cyfnod adrodd

Ein canfyddiadau oedd:

- 0
- 55,413

Gwasanaethau a ddarperir gan eraill

Fe wnaethom adolygu:

- nifer a chanran y cytundebau trydydd parti sy'n cael eu monitro i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion perthnasol y cynllun iaith
- enghraifft o waith monitro a wnaed i asesu a yw cytundeb trydydd parti yn cydymffurfio â gofynion perthnasol y cynllun iaith, a manylion unrhyw gamau a gymerwyd o ganlyniad i'r monitro

Ein canfyddiadau oedd:

- nid oes unrhyw gontractwyr trydydd parti newydd na chontractau wedi'u hadnewyddu lle bydd y gwaith yn cynnwys cyfathrebu yn y Gymraeg
- ddim yn berthnasol

Cyhoeddiadau

Fe wnaethom adolygu:

- nifer y cyhoeddiadau a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod adrodd sydd ar gael i'r cyhoedd
- nifer y cyhoeddiadau a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod adrodd sydd ar gael yn Gymraeg i'r cyhoedd

Ein canfyddiadau oedd:

- fe wnaethom gyhoeddi 15 o ddogfennau yn Saesneg yn ystod y cyfnod adrodd – mae'r rhain wedi'u rhestru isod:
 - Cynllun busnes yr SIA: 2025 i 2026 (Gorffennaf 2025)
 - Adroddiad cynllun iaith Gymraeg yr SIA 2024 i 2025 (Gorffennaf 2025)
 - Adroddiad blynyddol a chyfrifon Awdurdod y Diwydiant Diogelwch 2024 i 2025 (Gorffennaf 2025)
 - Manyleb gwybodaeth a sgiliau: hyfforddiant gloywi sgiliau ymyrraeth gorfforol ar gyfer gweithredwyr amddiffyn agos (Awst 2025)

- Ymgynghoriad Cael eich Trwyddedu: adroddiad canlyniad (Hydref 2025)
- Cael eich Trwyddedu (Rhagfyr 2025)
- Ffurflen geirda cymeriad SIA: ystyried ffactorau ychwanegol (Rhagfyr 2025)
- Ffurflen geirda cymeriad SIA: bwriad i wrthod (Rhagfyr 2025)
- Cais i gynnwys ymgynghorydd mewn ffurflen gohebiaeth (Ionawr 2026)
- Ffurflen gais ACS (Ionawr 2026)
- Ffurflen parhad cymeradwyaeth ACS (Ionawr 2026)
- Ffurflen llw SIA (Ebrill 2026)
- Ffurflen geirda cymeriad SIA: eithriad troseddoldeb tramor (Ebrill 2026)
- Ymgynghoriad ar ganllawiau statudol drafft adran 12 (Ebrill 2026)
- Canllawiau adran 12 Deddf Terfysgaeth (Diogelu Eiddo) 2025: drafft ymgynghori (Ebrill 2026)
- fe wnaethom gyhoeddi l ddogfen yn y Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd (ein hadroddiad Cynllun Iaith Gymraeg 2024 i 2025)

Datganiadau i'r wasg

Fe wnaethom adolygu:

- nifer a chanran y datganiadau i'r wasg a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod adrodd yn y Gymraeg / yn ddwyieithog

Ein canfyddiadau oedd:

- gwnaethom gyhoeddi 0 datganiad i'r wasg yn y Gymraeg / yn ddwyieithog

Gwefan a gwasanaethau ar-lein

Fe wnaethom adolygu:

- canran tudalennau gwefan a gwasanaethau ar-lein y sefydliad sydd ar gael yn y Gymraeg
- diweddariad ar y cynnydd a wnaed i wella neu gynyddu cynnwys Cymraeg y wefan yn ystod y cyfnod adrodd
- gwybodaeth am y broses a ddefnyddir i sicrhau bod cynnwys presennol, diweddariadau a chynnwys newydd yn cydymffurfio â chynllun yr iaith Gymraeg

Ein canfyddiadau oedd:

- 0.1% (l dudalen ar GOV.UK)
- nid oedd cynnydd mewn cynnwys yn yr iaith Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd

- mae'r platform GOV.UK yn cefnogi fersiynau wedi'u cyfieithu o gynnwys cyhoeddedig – gan gynnwys fersiynau Cymraeg. Felly gallwn ddarparu cynnwys yn y Gymraeg lle mae tystiolaeth o angen gan ddefnyddwyr neu ofyniad cyfreithiol i ni wneud hynny

Staffio/recruiwtio

Fe wnaethom adolygu:

- nifer a chanran staff y sefydliad sy'n gallu darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg
- nifer a chanran y swyddi newydd a gwag a hysbysebwyd yn ystod y cyfnod adrodd lle:
 - roedd sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol
 - roedd sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol
 - nid oedd sgiliau iaith Gymraeg yn ofynnol

Ein canfyddiadau oedd:

- nid ydym yn olrhain nifer staff yr SIA sy'n gallu darparu gwasanaethau yn y Gymraeg
- fe wnaethom hysbysebu:
 - 0 swydd newydd a gwag lle roedd sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol
 - 0 swydd newydd a gwag lle roedd sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol
 - 82o swyddi newydd a gwag lle nad oedd unrhyw sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol

Hyfforddiant i wella sgiliau iaith Gymraeg

Fe wnaethom adolygu:

- nifer a chanran gweithlu'r sefydliad a gafodd hyfforddiant i wella eu sgiliau iaith Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd
- y gwahanol fathau o hyfforddiant a ddarperir/a gynigir

Ein canfyddiadau oedd:

- ni chafodd unrhyw staff SIA hyfforddiant i wella eu sgiliau iaith Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd
- ddim yn berthnasol

Hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg

Fe wnaethom adolygu:

- nifer a chanran gweithlu newydd y sefydliad (h.y., newydd ers 1 Mai 2024) sydd wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg

Ein canfyddiadau oedd:

- cafodd 0 aelod o staff SIA hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd.

Cwynion

Fe wnaethom adolygu:

- nifer y cwynion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod adrodd ynghylch cydymffurfiaeth y sefydliad â'r cynllun iaith Gymraeg

Ein canfyddiadau oedd:

- cawsom 0 cwyn ynghylch ein cydymffurfiaeth â'n cynllun iaith Gymraeg.

Hunanreoleiddio

Fe wnaethom adolygu:

- y trefniadau a'r gweithdrefnau y mae'r sefydliad wedi'u mabwysiadu i'w gynorthwyo i hunanreoleiddio'n effeithiol

Ein canfyddiadau oedd:

- rydym wedi ymrwymo i gynnig ein gwasanaethau yn Saesneg a Chymraeg
- rydym yn monitro:
 - nifer y troeon y gofynnir i ni ddarparu gwasanaeth yn y Gymraeg
 - pa wasanaethau mae pobl yn gofyn amdanynt
- rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i nodi:
 - os oes angen gwneud y gwasanaethau hyn yn fwy rhwydd eu cael yn y Gymraeg
 - ffyrdd posibl y gallem gwneud y gwasanaethau hyn ar gael yn fwy rhwydd yn y Gymraeg

Cadw ein cynllun dan adolygiad

Yn ein hadroddiad cynllun iaith Gymraeg ar gyfer blwyddyn adrodd 2024 i 2025, dywedon ni:

"Yn y flwyddyn adrodd nesaf, byddwn yn adolygu ein cynllun iaith Gymraeg a'n hadroddiadau blaenorol... Byddwn yn edrych i weld a oes angen i ni wneud unrhyw newidiadau i'r cynllun ac, os oes angen, beth allai'r newidiadau hynny fod."

Fe wnaethom gynnal yr adolygiad hwn, a oedd hefyd yn ystyried beth arall y gallem ei wneud i gefnogi ein cwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg.

Camau Nesaf

Rydym am sicrhau bod ein cynllun iaith Gymraeg yn parhau i fod yn addas at y diben.

Rydym wedi nodi ein dogfennau a'n tudalennau gwe pwysicaf – yn enwedig y rhai sy'n ymdrin â'r broses o wneud cais am drwydded SIA ac adnewyddu hi. Byddwn yn cyhoeddi fersiynau Cymraeg o'r tudalennau a'r dogfennau hyn yn ystod y flwyddyn adrodd 2026 i 2027.

Byddwn hefyd yn ymestyn ein cynllun iaith Gymraeg i gwmpasu ein cyfrifoldebau newydd fel rheoleiddiwr Deddf Martyn (Deddf Terfysgaeth (Diogelu Mangreoedd) 2025).

Mae Deddf Terfysgaeth (Diogelu Mangreoedd) 2025 yn deddfwriaeth y DU a gynlluniwyd i sicrhau bod y cyhoedd yn cael ei amddiffyn yn well rhag terfysgaeth. Mae'n gwneud hyn drwy ei gwneud yn ofynnol i rai safleoedd a digwyddiadau cyhoeddus gael eu paratoi a bod yn barod i gadw pobl yn ddiogel os bydd ymosodiad yn digwydd.

Mae'r ddeddf yn sefydlu Awdurdod y Diwydiant Diogelwch fel rheoleiddiwr Deddf Martyn. Disgwylir i'r ddeddf ddod i rym yng ngwanwyn 2027.

Yn y dyfodol, bydd ein hymrwymiad i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru yn berthnasol i:

- ein gwaith fel rheoleiddiwr Deddf y Diwydiant Diogelwch Preifat 2001
- ein gwaith fel rheoleiddiwr Deddf Terfysgaeth (Diogelu Mangreoedd) 2025